



## Cyflwyniad i Gynadleddau Amddiffyn Plant yn y Canolbarth a'r Gorllewin

### Beth yw Cynhadledd Amddiffyn Plant?

Cyfarfod a gynhelir pan mae'r Gwasanaethau Plant yn poeni bod plentyn yn wynebu risg o niwed sylweddol yw Cynhadledd Amddiffyn Plant. Dylai Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn fod wedi egluro'r pryderon hyn i chi. Mae'r cyfarfod yn gyfle i bawb rannu gwybodaeth.

### Beth sy'n cael ei benderfynu yn y gynhadledd?

Ar ôl gwranddo ar yr holl wybodaeth, gofynnir i bawb a oes unrhyw dystiolaeth sy'n dangos niwed ac a oes angen Cynllun Gofal a Chymorth ar eich plentyn er mwyn ei gadw'n ddiogel.

### Pwy fydd yn bresennol yn y gynhadledd?

Fel arfer, caiff rhieni eu gwahodd i'r gynhadledd. Bydd gweithwyr proffesiynol hefyd yn bresennol a allai gynnwys y canlynol:

- Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn
- Ymwelydd Iechyd
- Ysgol
- Nyrs yr Ysgol
- Heddlu
- Gweithiwr y Feithrinfa
- Unrhyw un arall sy'n gweithio gyda chi a'ch teulu.

### A yw rhieni bob amser yn mynychu?

Cewch eich gwahodd i'r gynhadledd oni bai bod rheswm penodol dros beidio â gwneud hynny.

Gallwch ddod â rhywun i'ch cefnogi chi. Gall fod yn ffrind, yn gyfreithiwr neu'n eiriolwr.

### Gwahardd rhiant rhag dod i gynhadledd?

Weithiau, ni allwn wahodd rhieni. Fodd bynnag, rhoddir eglurhad i chi a gofynnir i chi am eich barn cyn y cyfarfod er mwyn sicrhau bod eich safbwyntiau'n cael eu clywed.

### Beth fydd yn digwydd cyn y gynhadledd?

Bydd Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn, ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'ch plentyn, yn llunio adroddiad i'w rannu yn y gynhadledd.

Dylai pawb sy'n llunio adroddiad ei rannu â chi 24 awr cyn y gynhadledd er mwyn i chi wneud sylwadau arnynt.

### Gall cynadleddau fod yn annymunol.

Rydym yn deall bod y cyfarfod hwn yn un anodd i chi ac rydym yn gobeithio y bydd ffordd ddefnyddiol o gael unrhyw gymorth sydd ei angen arnoch chi neu eich plentyn.

### Beth fydd yn digwydd yn ystod y gynhadledd?

Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod â chi cyn i'r gynhadledd ddechrau a gallwch ofyn unrhyw gwestiynau.

Bydd y gynhadledd yn dilyn agenda, a bydd yn trafod y digwyddiad a'r pryderon.

(Parhau ar y dudalen nesaf)

### Beth fydd yn digwydd yn ystod y gynhadledd?

Mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd yn defnyddio siartiau troi/byrddau gwyn er mwyn rhannu barn pawb am yr hyn sy'n mynd yn dda, y pryderon sydd gan bobl a'r hyn y gallai fod angen ei newid (Arwyddion Diogelwch).

Gwneir penderfyniad ynghylch a oes angen Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth ar eich plentyn.

### Beth sy'n digwydd os bydd angen Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth ar fy mhientyn?

Byddwch yn cael nodau clir o ran yr hyn y mae angen i chi ei wneud er mwyn sicrhau nad yw pobl yn poeni mwyach.

Bydd Grwpiau Craidd (chi a'r holl weithwyr proffesiynol) yn cyfarfod bob mis i drafod sut mae pethau'n mynd.

### Beth sy'n digwydd ar ôl y gynhadledd?

Byddwch yn cael llythyr penderfyniad o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau'r cynllun amlinellol.

Ein nod yw anfon cofnodion (nodiadau) o'r cyfarfod o fewn 20 diwrnod gwaith. Os ydych o'r farn nad yw'r rhain yn adlewyrchu'r hyn a ddywedwyd yn y cyfarfod, cysylltwch â'r Cadeirydd.

### Cyfrinachedd.

Mae popeth a ddywedir yn y gynhadledd yn gyfrinachol a dim ond â chaniatâd y Cadeirydd y gellir rhannu hyn â phobl nad oeddent yn y cyfarfod. Ni ddylid rhannu manylion am y cyfarfod ar y cyfryngau cymdeithasol.

### Beth y gallaf ei wneud os ydw i'n anfodlon ar benderfyniad y gynhadledd?

Mae gennych yr hawl i gwyno os ydych yn teimlo'n anfodlon ar y broses.